

# Cylchlythyr | Circular

## Ymgynghoriad ar gronfa Amgylchedd a Diwylliant Ymchwil Cymru (WREC)

**Dyddiad:** 21 Rhagfyr 2023  
**Cyfeirnod:** W23/33HE  
**At:** Benaethiaid sefydliadau addysg uwch yng Nghymru  
**Ymateb erbyn:** Ymgynghoriad ar y fethodoleg gyllido: **19 Ionawr 2024**  
Datganiadau o Ddiddordeb ar gyfer lletya'r ddau Rwydwaith:  
**29 Ionawr 2024**

**Cyswllt:** Enw: Hayley Moulding neu Hywel Edwards  
E-bost: [hayley.a.moulding@hefcw.ac.uk](mailto:hayley.a.moulding@hefcw.ac.uk),  
[hywel.edwards@hefcw.ac.uk](mailto:hywel.edwards@hefcw.ac.uk)

Mae'r cylchlythyr hwn yn amlinellu manylion cronfa newydd, sef Cronfa Amgylchedd a Diwylliant Ymchwil Cymru, ac yn gwahodd ymatebion ynghylch y fethodoleg ddyrannu arfaethedig. Bydd £200,000 yn cael ei ddyrannu ym mlwyddyn academiaidd 2023/24 i gefnogi gweithgareddau newydd a phresennol mewn sefydliadau cymwys sy'n gwella diwylliannau ac amgylcheddau ymchwil cadarnhaol.

Mae'r cylchlythyr hwn hefyd yn gwahodd ceisiadau gan sefydliadau cymwys, neu gonsortia o sefydliadau cymwys, i roi cymorth i ddatblygu a rheoli dau Rwydwaith diwylliant ymchwil, a fydd yn cael eu cefnogi â £50,000 ym mlwyddyn academiaidd 2023/24.

Os oes angen y ddogfen hon arnoch mewn fformat hygyrch arall, anfonwch e-bost i [info@hefcw.ac.uk](mailto:info@hefcw.ac.uk).



Noddir gan  
Lywodraeth Cymru  
Sponsored by  
Welsh Government

## Cefndir

1. Mae datblygu a chynaliadwyedd diwylliannau ac amgylcheddau ymchwil iach a rhagorol mewn sefydliadau addysg uwch (SAUau) a sefydliadau eraill ar draws sector ymchwil y DU yn ganolog i gefnogi ymchwil ragorol o ansawdd da.
2. Mae sefydliadau yn Lloegr sy'n gymwys i gael cyllid sy'n gysylltiedig ag ansawdd (QR) wedi bod yn cael cyllid i gefnogi prosiectau diwylliant ac amgylchedd ymchwil ers mis Ionawr 2022. Mae hyn yn rhan o'r fenter Gwella Diwylliant Ymchwil. Cafodd y cyllid hwn ei frigidori o ddyraniad cyllid QR cyffredinol Research England.
3. Mae CCAUC yn cydnabod bod Sefydliadau Addysg Uwch Cymru eisoes yn cefnogi diwylliannau ac amgylcheddau ymchwil cadarnhaol trwy eu dyraniadau QR. Mae'n amlwg bod angen gwella gweithgarwch yn y maes hwn ac yn dilyn trafodaethau gyda'r sector, mae CCAUC wedi penderfynu lansio cronfa Amgylchedd a Diwylliant Ymchwil Cymru (WREC).
4. Bydd cyllid WREC yn cael ei ddyrannu i SAUau Cymru sy'n cael cyllid QR. Bydd y cyllid hwn yn rhoi cymorth pwrpasol ar gyfer meithrin a datblygu diwylliannau ac amgylcheddau ymchwil iach. Bydd hyn yn cynnwys meithrin capasiti newydd a gwella prosiectau presennol sy'n gysylltiedig â diwylliannau ac amgylchedd ymchwil.
5. Bydd cyllid WREC yn cael ei ddyrannu ar gyfer blwyddyn academiaidd 2023/24 ar ran CCAUC, gyda'r disgwyliad y bydd y cyllid yn parhau tan flwyddyn academiaidd 2027/28 yn amodol ar gyllidebau a phenderfyniadau'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil.
6. Mae tri diben i'r cylchlythyr hwn:
  - i. Darparu gwybodaeth am gronfa newydd WREC;
  - ii. Ymgynghori ar y fethodoleg a ddefnyddir wrth ddyrannu £200,000 i SAUau Cymru;
  - iii. Galw am Ddatganiadau o Ddiddordeb i letya, rheoli a gweithio'n strategol i gyflawni dau Rwydwaith Cymru gyfan â chyllid o £50,000. Diben y rhain yw rhoi cymorth i rannu ymarfer, cydweithio a chyd-ddatblygu gweithgareddau ledled Cymru sy'n ymwneud â diwylliannau ymchwil ac amgylcheddau ymchwil iach a chadarnhaol.

## Cyllid Sefydliadol WREC

7. Mae'r dyraniad o £200,000 o gyllid i SAUau Cymru wedi'i fwriadu i gefnogi prosiectau, rhaglenni a gweithgareddau sy'n cyfrannu'n weithredol at ddatblygu diwylliannau ac amgylcheddau ymchwil cadarnhaol ac iach. Yn y cyd-destun hwn, mae "SAUau Cymru" yn cyfeirio at bob sefydliad yng Nghymru sy'n cael cyllid QR (fel a nodir yn [W23/19HE: Dyraniadau Cyllid CCAUC ar gyfer Blwyddyn Academiaidd 2023/24](#) a gyhoeddwyd ar 19 Gorffennaf 2023).

8. Mae CCAUC yn cydnabod pwysigrwydd cydweithio ar draws y sector wrth ddatblygu diwylliannau ymchwil cadarnhaol a rôl sefydliadau fel Rhwydwaith Arloesi Cymru, Cymdeithas Ddysgedig Cymru, a Prifysgolion Cymru. Caiff SAUau cymwys eu hannog yn gryf i gydweithio ac adeiladu ar weithgareddau presennol sy'n cefnogi diwylliannau ac amgylcheddau ymchwil cadarnhaol ymhlith SAUau a sefydliadau sy'n gysylltiedig ag ymchwil.
9. Wrth benderfynu ar y defnydd o ddyraniadau, dylai sefydliadau gyfeirio at y tair thema a amlinellir yn y tabl isod. Mae'r rhain wedi cael eu hadnabod gan CCAUC yn dilyn ymgysylltu â sectorau ymchwil Cymru a'r DU. Nid yw'r tabl yn cyflwyno rhestr gynhwysfawr ac anogir sefydliadau i ddefnyddio'r cyllid yn hyblyg gan roi cyfrif am eu blaenoriaethau strategol, ac egwyddorion ehangach sy'n ymwneud â gwella diwylliannau ac amgylcheddau ymchwil. Er enghraifft, efallai y bydd SAUau'n penderfynu defnyddio'r cyllid hwn i gefnogi gweithgarwch ychwanegol sy'n ymwneud â choncordatau, cytundebau ac adolygiadau. Os felly, disgwylir i SAUau ddangos effaith well i'w cymuned y tu hwnt i ymlynu wrth egwyddorion.

<b>Themâu</b>	<b>Is-feysydd a allai gyd-fynd â hynny</b>
<b>Creu Diwylliant/ Diwylliannau Ymchwil Cadarnhaol</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Gwobrwyo a chydabod ymddygiadau cadarnhaol</li> <li>• Nodi sut y mae diwylliant ymchwil cadarnhaol yn edrych gan gynnwys llesiant</li> <li>• Gwerthfawrogi gweithgarwch ymchwil amrywiol</li> <li>• Datblygu gyrfa ymchwilwyr a phroffesiynau cysylltiedig</li> <li>• Datblygu fframweithiau diwylliant ymchwil</li> <li>• Gwella seilwaith a chapasiti i roi cymorth i ennill mwy o grantiau ymchwil</li> <li>• Mynd i'r afael â bwlio ac aflonyddu</li> </ul>
<b>Ymgorffori cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant (EDI)</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Deall ac ymdrin â rhwystrau i gynhwysiant ar gyfer ymgeiswyr o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol yn y cyflenwad o dalent ymchwil</li> <li>• Cydnabod cyfraniadau gan yr holl staff</li> </ul>
<b>Ymchwil Gyfrifol</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Uniondeb, gonestrwydd a moeseg</li> <li>• Gwella ymddygiad ac atgynrychioldeb ymchwil</li> <li>• Asesu a diwygio ymchwil</li> <li>• Cydweithio a chynnull sefydliadau i rannu arfer</li> <li>• Atgynrychioldeb metrigau</li> </ul>

10. Mae CCAUC yn annog SAUau i gefnogi gweithgareddau a/neu brosiectau sy'n cael effaith gadarnhaol ar ddefnyddio'r Gymraeg.
11. Mae CCAUC yn disgwyl i'r cyllid ddangos cynnydd a gwelliant mewn gweithgarwch sy'n gysylltiedig â diwylliant ymchwil. Mae CCAUC yn cydnabod y gellid defnyddio'r cyllid hwn i wella prosiectau presennol, a hefyd ar gyfer gweithgareddau neu seilwaith newydd.
12. Gellir ôl-ddyddio cyllid i 1 Awst 2023 lle gellir dangos gwerth ychwanegol i'r SAU.

13. Dylai sefydliadau ystyried gofynion Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil y dyfodol wrth ddatblygu eu gweithgareddau, yn enwedig lle gall eu gweithgareddau gyfrannu at yr elfen Pobl, Diwylliant a'r Amgylchedd.
14. Mae CCAUC yn disgwyl i gyllid WREC gael ei ddefnyddio i ddatblygu amgylchedd ymchwil cefnogol a chynhwysol, sy'n gwerthfawrogi cyfraniad staff academaidd, staff sy'n galluogi ac sy'n cefnogi ymchwil, a staff gwasanaethau proffesiynol. Mae hyn yn cynnwys, ymhlith eraill, technegwyr, archifwyr, peirianwyr meddalwedd.
15. Mae CCAUC yn cydnabod bod y Strategaethau Llesiant ac Iechyd a'r Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol mewn SAUau yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd. Gallai sefydliadau ystyried sut i ymgysylltu ag ymchwilwyr a staff sy'n galluogi ymchwil fel rhan o'r adolygiadau, gan ymgorffori datblygiadau mewn gweithgarwch diwylliant ymchwil ar draws y sefydliad.

### Methodoleg Dyrannu WREC

16. Mae'r fethodoleg a ddefnyddir i ddyrannu cyllid ar gyfer 2023/2024 yn seiliedig ar ddata staff a myfyrwyr HESA 2021/2022:
  - Nifer y staff CagALI ar gontractau ymchwil-yn-unig yn y sefydliad addysg uwch
  - Nifer y staff CagALI ar gontractau addysgu ac ymchwil yn y sefydliad addysg uwch
  - Nifer y myfyrwyr ymchwil ôl-radd yn y sefydliad addysg uwch
17. Bydd pob SAU cymwys yn cael dyraniadau ym mlwyddyn academaidd 2023/24. Mae isafswm dyraniad o £5k wedi cael ei gynnwys i sicrhau bod gan bob SAU cymwys ddyraniad y gellir ei ddefnyddio i wella eu diwylliannau a'u hamgylcheddau ymchwil.<sup>1</sup>

Sefydliad	CagALI				£
	Contractau ymchwil	Contractau Addysgu ac Ymchwil	Myfyrwyr PGR	Cyfanswm	Dyraniad Chwe-24
Prifysgol De Cymru	67	664	220	951	<b>19,038</b>
Prifysgol Aberystwyth	125	275	242	641	<b>12,841</b>
Prifysgol Bangor	203	244	430	877	<b>17,562</b>
Prifysgol Caerdydd	937	1,273	1,761	3,971	<b>79,501</b>
Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant	32	297	606	935	<b>18,719</b>
Prifysgol Abertawe	449	521	729	1,699	<b>34,015</b>
Prifysgol Metropolitan Caerdydd	17	496	152	666	<b>13,324</b>
Prifysgol Wrecsam	2	176	41	219	<b>5,000</b>
<b>Cyfanswm</b>	1,832	3,946	4,180	9,958	<b>200,000</b>

<sup>1</sup> Ffynhonnell: Cofnod staff a chofnod myfyrwyr HESA 2021/22: Poblogaeth sesiwn contractau staff HESA, Poblogaeth sesiwn myfyrwyr HESA ac mae niferoedd mewn staff CagALI.

18. Mae CCAUC yn nodi nad yw methodoleg dyrannu cyllid WREC yn benodol yn cynnwys staff sy'n cefnogi ymchwil megis rhai o'r gymuned dechnegol, a staff gwasanaethau proffesiynol. Mae CCAUC yn cydnabod cyfraniadau hollbwysig yr aelodau hyn o staff at ddiwylliannau ymchwil ar y cyfan a'r amgylchedd ymchwil.
19. Cynigir y fethodoleg gyllido uchod ar gyfer dyraniad blwyddyn academaidd 2023/24. Gellir adolygu'r fethodoleg gyllido mewn blynyddoedd yn y dyfodol yng ngoleuni datblygiad y Rhwydweithiau, gweithgarwch sefydliadol a'r dirwedd ymchwil i sicrhau bod cymorth yn gallu ymateb i flaenoriaethau'r dyfodol.
20. Mae CCAUC yn gwahodd sefydliadau i gyflwyno eu sylwadau ar y fethodoleg gyllido arfaethedig ar gyfer blwyddyn academaidd 2023/2024 i [research.wales@hefcw.ac.uk](mailto:research.wales@hefcw.ac.uk) gan ddefnyddio'r ffurflen ymgynghori sydd ynghlwm fel **Atodiad A** erbyn **dydd Gwener 19 Ionawr 2024**.

### Trefniadau Monitro Cronfa WREC

21. Bydd dyraniadau sefydliadol ar gyfer blwyddyn academaidd 2023/24 yn cael eu gwneud ym mis Chwefror 2024. O ganlyniad, mae CCAUC yn cydnabod y dylai'r gofynion monitro ar gyfer blwyddyn academaidd 2023/24 fod yn fach iawn. Mae CCAUC yn disgwyl rhywfaint o sicrwydd ynghylch y prosiectau a'r gweithgareddau sy'n cael eu cyflawni oherwydd y dyraniad hwn. Bydd cyllid WREC yn cael ei fonitro trwy lenwi'r ffurflen yn **Atodiad B**:
  - Dylai Rhan 1 ddynodi sut y mae'r gweithgareddau/prosiectau'n cyd-fynd â'r meysydd thematig a amlinellir yr adran o'r cylchlythyr hwn sy'n dwyn y teitl *Cyllid Sefydliadol WREC*.
  - Dylai Rhan 2 o'r ffurflen gynnwys rhestr o weithgareddau y mae'r cyllid yn effeithio arnynt a darparu tystiolaeth i ddangos sut y mae'r dyraniad wedi cefnogi'r gweithgareddau ym mlwyddyn academaidd 2023/24 trwy adrodd ar y canlynol:
    - a fyddai gweithgareddau wedi digwydd heb yr arian,
    - a yw'n wir mai dim ond o ganlyniad i'r cyllid y digwyddodd y gweithgareddau, ac na fyddent wedi digwydd fel arall,
    - a fyddai gweithgareddau wedi digwydd, ond i raddau llai, heb y cyllid.
22. Y disgwyl yw bod ffurflenni monitro **yn ddim mwy na thair tudalen A4**.
23. Bydd gwybodaeth a gyflwynir gan sefydliadau yn eu hadroddiadau'n sail i dystiolaeth i ategu penderfyniadau ynglŷn â chyllidebau a chymorth yn y dyfodol ar gyfer diwylliant ymchwil ac amgylchedd ymchwil ledled Cymru.

### Rhwydweithiau Amgylchedd a Diwylliant Ymchwil

24. Bydd CCAUC yn darparu cyllid i greu dau Rwydwaith cydweithredol i alluogi gweithwyr ymchwil proffesiynol mewn swyddi arwain a gweithredol i gydweithio a gweithio ar y cyd ar lefel strategol. Bydd y Rhwydweithiau hyn yn sbarduno

syniadau trwy drafodaeth a rhannu arfer addawol, gwybodaeth, heriau, rhwystrau a chyfleoedd.

25. Bydd CCAUC yn dyfarnu £50k trwy broses Datgan Diddordeb (Eol) i roi cymorth i ddatblygu, rheoli a gwneud gwaith strategol i ddarparu dau rwydwaith Cymru gyfan. Bydd y rhwydweithiau hyn yn dwyn ynghyd sefydliadau addysg, sefydliadau eraill a chyrff perthnasol a chanddynt nod cyfunol a chydweithredol i feithrin diwylliant ymchwil gwell, iachach a mwy cadarnhaol ledled Cymru.
26. Bydd y broses Datgan Diddordeb yn cael ei defnyddio i ddyfarnu cyllid i sefydliad addysg neu sefydliad arall arweiniol i letya, rheoli ac arwain y Rhwydweithiau. Gellir dod o hyd i'r broses datgan diddordeb a'r meini prawf yn **Atodiad C** y cylchlythyr hwn.
27. Bydd cyllid ar gyfer y ddau Rwydwaith yn cael ei ddyrannu i un cynnig, gyda'r sefydliad arweiniol llwyddiannus yn gyfrifol am ddatblygu a rheoli'r **ddau** Rwydwaith ar ran sector ymchwil Cymru. **Nid** oes angen i'r sefydliad arweiniol fod yn sefydliad addysg uwch ond **rhaiddo fod** yn gymwys i gael cyllid grant gan CCAUC.
28. Gwahoddir Datganiadau o Ddiddordeb gan grwpiau neu gonsortia o sefydliadau, gyda sefydliad arweiniol sy'n gymwys i gael taliad grant uniongyrchol gan CCAUC. Er y gall sefydliadau addysg/sefydliadau eraill unigol wneud cais, bydd angen i'r cynnig llwyddiannus ddangos cefnogaeth y gymuned ymchwil ehangach fel rhan o'u cais.
29. Dylid cyflwyno Datganiadau o Ddiddordeb ar gyfer lletya'r ddau Rwydwaith i [research.wales@hefcw.ac.uk](mailto:research.wales@hefcw.ac.uk) gan ddefnyddio'r ffurflen sydd ynghlwm fel **Atodiad C** erbyn **dydd Llun 29 Ionawr 2024**.

## Amserlen

30. Isod ceir amserlen sy'n amlinellu ein disgwyliadau yn ystod y cyfnod ymgynghori a chynllunio.

<b>Tachwedd 2023</b>	Cymeradwyo cyllid gan Gyngor CCAUC	
<b>Rhagfyr 2023</b>	Cyhoeddi ymgynghoriad a galw am Ddatganiadau o Ddiddordeb	
<b>Ionawr 2024</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cyflwyno ffurflenni ymgynghori</li> <li>• Dadansoddiad o ymatebion i'r ymgynghoriad gan CCAUC</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cyflwyno ffurflenni Datgan Diddordeb</li> </ul>
<b>Chwefror 2024</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cadarnhau methodoleg gyllido WREC</li> <li>• Dyraniadau cyllid WREC i sefydliadau addysg uwch Cymru</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Asesu ymgeiswyr a gyflwynodd Ddatganiadau o Ddiddordeb</li> <li>• Cadarnhau sefydliad(au) llwyddiannus i gefnogi'r Rhwydweithiau</li> </ul>

<b>Mawrth 2024</b>		<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cytundeb gyda sefydliad(au) a CCAUC ynghylch talu grant i gyllido'r Rhwydweithiau</li> <li>• Talu grant i sefydliad(au)</li> </ul>
<b>Ebrill 2024</b>	Pontio i'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil	
<b>Gorffennaf 2024</b>	Ffurflen fonitro yn cael ei chwblhau a'i chyflwyno ym mis Gorffennaf 2024.	

### Rhagor o wybodaeth/ymatebion i

31. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â [research.wales@hefcw.ac.uk](mailto:research.wales@hefcw.ac.uk).

### Asesu effaith ein polisiau

32. Gellir cyflwyno ceisiadau yn Gymraeg, ac ni chânt eu trin yn llai ffafriol na cheisiadau a gyflwynir yn Saesneg.
33. Rydym wedi cynnal ymarfer sgrinio asesu effaith i helpu i ddiogelu rhag gwahaniaethu a hybu cydraddoldeb. Fe wnaethom hefyd ystyried effaith polisiau ar y Gymraeg, a darpariaeth Gymraeg o fewn y sector AU yng Nghymru ac effeithiau posibl tuag at y nodau yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 gan gynnwys ein Hamcanion Llesiant. Cysylltwch ag [equality@hefcw.ac.uk](mailto:equality@hefcw.ac.uk) i gael rhagor o wybodaeth am asesiadau effaith.